**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# CCCC 2008 (Papur 2 Rhan 1)

**Dyddiad:** Dydd Iau 4 Rhagfyr 2008
**Amser:** 1.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Ross Davies, Swyddog Polisi Cydraddoldeb, yr Uned Gorfforaethol est. 8306

# Cynigion ar gyfer cynllun mentora newydd Aelodau'r Cynulliad

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

## Diben a chrynodeb o'r materion

Yn dilyn llwyddiannau Operation Black Vote (OBV), cynllun cysgodi Aelodau'r Cynulliad (2007-08), bu staff Comisiwn y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer cynllun mentora ymysg Aelodau'r Cynulliad a chynghorwyr ledled Cymru gyfan wedi ei seilio ar fodel Operation Black Vote ond a estynnir i elfennau cydraddoldeb eraill er mwyn ymgysylltu ag unigolion eraill a dangynrychiolwyd mewn gweithgareddau democrataidd a dinesig. Rydym wedi cyfarfod ag Operation Black Vote a chyrff cynrychioladol eraill i fesur y diddordeb sydd mewn cynllun mentora estynedig, a fyddai'n agored i grwpiau a dangynrychiolwyd ar draws yr elfennau cydraddoldeb, sef grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ; pobl lesbaidd, hoyw neu ddeurywiol; pobl anabl; pobl ifanc; pobl trawsrywiol a menywod. Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch datblygu'r cynllun.

## Argymhellion

Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i:

- gytuno ar y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynllun mentora Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Leol a chynnig unrhyw sylwadau.

**Trafodaeth**

Y prif newidiadau i'r cynllun OBV blaenorol fyddai:

- bod y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cydweithio â chyrff gwirfoddol i ddatblygu cynllun mentora i Gymru gyfan ar draws y grwpiau cydraddoldeb
- bod cyfle i wleidyddion lleol a chenedlaethol gymryd rhan mewn cynllun ar y cyd sy'n annog ymgysylltu dinesig a gwleidyddol ar draws y grwpiau cydraddoldeb
- ymgysylltu pellach ar draws y grwpiau cydraddoldeb
- bod cydgysylltydd lleol i weinyddu pob agwedd ar y cynllun
- bod arbedion posibl o ran cyllid ac effeithiolrwydd drwy gydweithio i ariannu, gweinyddu, hyrwyddo a chefnogi'r cynllun.

Amlinellir y fframwaith ddrafft yn **Atodiad A**. Bydd pob corff cynrychioladol yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio ymgeiswyr a byddant yn dod ynghyd i ffurfio grŵp llywio i roi cymorth parhaus drwy gydol y cynllun. Byddai'r cynllun yn cael budd o brofiad ac arbenigedd OBV. Byddem yn gofyn iddynt gymryd rhan yn yr elfen ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r broses hyrwyddo a recriwtio ac yn gofyn iddynt roi cefnogaeth barhaus i gyfranogwyr ymysg pobl dduon a lleafrifoedd ethnig. Efallai bydd gofyn iddynt ddarparu hyfforddiant hefyd.

Dyma amcanion a nodau'r cynllun arfaethedig a'r canlyniadau a ddymunir:

- symud cynrychiolaeth ddinesg, cymunedol a gwleidyddol yn ei blaen a lleihau'r diffyg o ran nifer y grwpiau a dangynrychiolir sy'n cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd; gwella'r ddealltwriaeth o'r Cynulliad a llywodraeth leol ymysg y grwpiau hynny a'r cyhoedd ac ennyn mwy o hyder ynddynt.
- rhoi'r cyfle i wleidyddion unigol, pleidiau gwleidyddol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru weithio gyda'r cymunedau a dangynrychiolir ac i ddysgu mwy am eu profiadau.
- cyfleu neges gadarnhaol y gall cymunedau yng Nghymru a dangynrychiolir achosi newid cadarnhaol drwy ymgysylltu â gwleidyddion a'r broses ddemocrataidd.
- cynyddu potensial y rhai sy'n cael eu mentora i ystyried dod yn fwy gweithgar o fewn y byd gwleidyddol a dinesig.
- gwella gwybodaeth wleidyddol y rhai sy'n cael eu mentora i'w galluogi i feithrin amrywiaeth o sgiliau fel y gallant ystyried cyfrannu ymhellach at y byd dinesig a gwleidyddol.

- rhoi cyfle i'r rhai sy'n cael eu mentora feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i weithredu fel llysgenhadon cymunedol, gan gynghori a rhoi grym i eraill i chwarae rhan fwy gweithredol o fewn y gymuned ddinesig.

Rydym yn cynnig y fformat a ganlyn:

- byddai'r cynlluniau peilot yn cael eu cynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10, ac yna byddai Comisiwn y Cynulliad, CLlLC a'u partneriaid yn gwerthuso llwyddiant y cynllun cyn symud ymlaen i wahodd mwy o ymgeiswyr.
- byddai'r cynllun yn cynnwys cyfranogwyr sydd wedi eu dewis i gael eu mentora gan wleidyddion am leiafswm o ddeng niwrnod dros chwech i wyth mis, gan ddechrau ym mis Medi 2009. Ar gyfer y rhai fydd yn cymryd rhan yn y cynllun mentora gydag Aelodau'r Cynulliad, bydd hyn yn golygu treulio amser yn y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd ac yn y swyddfeydd etholaethol er mwyn profi holl ystod y gwaith a wneir gan y sawl sy'n mentora. Yn yr un modd, dylai'r rhai sy'n cymryd rhan ar ochr llywodraeth leol y cynllun brofi holl ystod dyletswyddau'r cynghorwyr.
- byddai Comisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio'n agos gyda chyrff ar draws yr elfennau cydraddoldeb a nodir i ddatblygu a hysbysebu'r cynllun ac i ddewis ymgeiswyr addas. Mae'r partneriaid yn cynnwys OBV, Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, y Ddraig Ffynci a Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
- byddai staff Comisiwn y Cynulliad yn cysylltu â'r grwpiau pleidiol o fewn Cynulliad Cymru i ysgogi diddordeb yn y cynllun. Byddai CLlLC yn trefnu pwy fydd yn cymryd rhan o fewn llywodraeth leol. Byddai canllawiau cryfach yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad sy'n cymryd rhan fydd yn amlinellu'r amcanion, yr ymrwymiad a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'n debygol y byddai'r CLlLC yn mabwysiadu ac yn addasu'r canllawiau hynny.

## Trefniadau Gweinyddol a Chyllidebol

Bydd Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy CLlLC) yn ariannu cydgysylltydd lleol ar y cyd, ar lefel HEO, i weinyddu elfennau'r Cynulliad ac elfennau llywodraeth leol y cynllun. Bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ac yn gweinyddu'r ceisiadau a dderbynir ac yn cydgysylltu'r hyfforddiant, yr ohebiaeth, digwyddiadau, cyllid a threuliau. Gellid arbed arian drwy rannu digwyddiadau hyfforddi, gohebiaeth a lleoliadau ac ati.

Bydd y cydgysylltydd wedi ei leoli o fewn Comisiwn y Cynulliad, a bydd yn cael ei reoli gan Reolwr Cydraddoldeb yr Uned Gorfforaethol. Penodir i'r

swydd drwy broses recriwtio agored a bydd contract tymor penodol o 12 mis i gyd-fynd â hyd y cynllun peilot. Byddwn yn ystyried secondiadau.